Cyngor Cymuned Hydref 19 2017 yn Neuadd Santes Ursula

Presennol : Huw Griffith, Dylan Davies, Islwyn Jones, Dai Jones, y Cynghorydd Rowland Rees Evans a'r clerc

Ymddiheuriad : Fred Jones, Lyn Davies

Yn absenoldeb y Cadeirydd cymerwyd y gadair gan yr is-gadeirydd, Huw Griffith

Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Medi ac arwyddwyd eu bod yn gywir

Materion yn Codi

Prosiect baw cŵn – y cyd-gysylltydd wedi gofyn am, ac wedi derbyn, map yn dangos y mannau mwyaf tebygol ar gyfer casglu samplau  Dim gwybodaeth bellach ynglŷn â faint o gyfraniad a ddisgwylid.

Wedi ffonio adran ffyrdd yn Aberaeron i sôn am y dŵr rhwng Pengelli a Thanrallt ac am yr hewl heibio Hafod Las Isaf. Wedi sôn eto am ochr y ffordd ar y tro uwch y grid tu hwnt i Brynawel. Ateb gafwyd oedd bod rhywun wedi edrych arno a phenderfynu mai cwter sydd yna ac nid twll  a rhaid cadw cwter ar agor.  Gofynnwyd a fyddai swyddog yn mynd i edrych arno eto o safbwynt rhywyn sy'n tynnu treilar rownd y tro.

Bethel.  Atgoffwyd y Cyngor na ddaethpwyd i unrhyw benderfyniad ynglŷn â'r cyfraniad arferol i Bethel.  Doedd neb yn bresennol fedrai roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa.

Gohebiaeth

1   Gwybodaeth am bwyllgor rheoli datblygu mis Hydref, cyfarfod o bwyllgor ardal Ceredigion o Un Llais Cymru, a gwahoddiad i Eisteddfod Ysgol Henry Richard.
2   Ymgynghoriad ar ran Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol ar gynnal arolygon cymunedol.  Bydd hwn yn arwain at arolwg cynhwysfawr o'r sector cynghorau cymuned a chynghorau tref. Ffurfiwyd ymateb i'r pedwar cwestiwn yn yr arolwg.
3   Llenwyd arolwg ynglŷn â thaliadau claddu ar gyfer plant.
4   Edrychwyd ar fap yn dangos Cynigion Diwygiedig y Comisiwn Ffiniau a gofynnwyd i'r clerc ysgrifennu eto yn nodi'r farn fod cwmpas y diriogaeth a gynnigir ar gyfer yr ardal hon yn rhy eang.
5   Y Rheolydd Pensiynau yn cadarnhau bod Cyngor Cymuned Llangwyryfon wedi cwblhau datganiad cydymffurfio â'r Rheolydd Pensiynau
6   Ni fynegwyd unrhyw farn ar gynllun Corfforaethol Drafft yr awdurdod Tân ac Achub
7   Cynrychiolydd ar Gorff Llywodraethol yr Ysgol.  Dangoswyd bod pawb yn hapus iawn i gefnogi cais Dylan Davies i gynrychioli'r Cyngor Cymuned ar y Corff.

Ariannol

Cais am gefnogaeth oddi wrth Cyngor ar Bopeth -  i'w ystyried gyda'r rhoddion eraill ym mis Mawrth.

Awdurdodwyd talu am dorch pabi coch - £17;  Bill trydan £42.71, a chyflog y clerc £200.

Arian yn y banc.  Dim cyfriflen ers diwedd Awst.  Ar ôl talu'r sieciau uchod, fe fydd £1218.34 ar ôl Cyfrif rhif 2 -  £26101.48

Llety'r Bugail Community Fund – invoice i'w anfon yn gofyn am y cyfraniad blynyddol. Soniwyd eto am y ffordd orau i ddefnyddio'r Gronfa hon gan awgrymu y gellid gofyn i gymdeithasau'r pentre am syniadau ond ni ddaethpwyd i benderfyniad.

Dyddiad y cyfarfod nesaf  -  Tachwedd 16